**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 16eg Medi 2020 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 152. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan J. Ball, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms. J. Hughes, a B. Mellor.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau, fel y cytunwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Gorffennaf 2020, y derbynnir ymddiheuriadau gan unrhyw aelod nad yw'n bresennol yng nghyfarfod heno ar y dybiaeth nad ydynt wedi gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd anawsterau technegol.

**PENDERFYNWYD** *cofnodi ymddiheuriadau ar gyfer A.S. Johnson, Mrs. P.M. Jones a Miss S. Roberts.*

## 153. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 22ain Gorffennaf 2020 - Rhifau Cofnod 143-151

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Penderfyniadau cynllunio a gymerwyd - Gorffennaf-Awst 2020 - Atodlenni 12-15

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *bod y penderfyniadau yn cael eu cymeradwyo.*

## 154. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) MAWRTH - MEHEFIN 2020

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

*Gorffennaf 2020*

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1014b | Shire Leasing | 337.33 | System ffôn Ch2 2020/21 |
| 1015 | BT | 372.60 | Rhentu llinell a galwadau |
| 1016 | BT | 105.12 | Rhentu llinell |
| 1017 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17 Mai – 16 Mehefin 2020 |
| 1018 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi reoli Mehefin 2020 |
| 985 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 taliad 4 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | Ardrethi Annomestig 20/21 ar gyfer swyddfa Ffordd Wellington – taliad 4 o 10 |
| 1019 | CThEM | 2,702.79 | Didyniadau PAYE ar gyfer Mehefin 2020 |
| 1020 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,224.77 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Mehefin 2020 |
| 1021 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,175.88 | Cyflogau staff ar gyfer Gorffennaf 2020 |
| 990 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Tlodi Tanwydd 20/21 taliad 2 o 4 |
| **Cyfanswm taliadau Atodlen A** | | **£20,017.66** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Cyfrif Rhybudd 31 Diwrnod Santander | 23.39 |
| Ad-daliad TAW | CThEM Ch1 Ebrill – Mehefin 2020 | 1,323.20 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| **Cyfanswm Incwm** | | **£1,348.89** |

*Awst 2020*

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1025 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17 Mehefin – 16 Gorffennaf 2020 |
| 1028b | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi reoli Gorffennaf 2020 |
| 985 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau 20/21 Taliad 5 o 12 |
| 984 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | Ardrethi Annomestig 20/21 ar gyfer Swyddfa Ffordd Wellington – taliad 5 o 10 |
| 1026 | CThEM | 2,702.59 | Didyniadau PAYE ar gyfer Gorffennaf 2020 |
| 1027 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,224.77 | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Gorffennaf 2020 |
| 1029 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,175.68 | Cyflogau staff Gorffennaf 2020 |
| 1034 | Cyngor Sir Ddinbych | 15,000.00 | Gteledu Cylch Cyfyng 20/21 |
| **Cyfanswm Taliadau Atodlen A** | | **£32,202.21** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Llogau | Cyfrif Rhybudd 31 Diwrnod Santander | 23.57 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |

| | | |
|---|---|---|
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Llogau | Cyfrif Adnau 7 Diwrnod HSBC | 0.46 |
| Praesept | Cyngor Sir Ddinbych 2 o 3 ar gyfer 2020/21 | 184,537.00 |
| **Cyfanswm Incwm** | | £184,562.41 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r holl adroddiadau.*

## 155. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (1af Gorffennaf i 31ain Awst 2020)*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Y Cyngh Janette Hughes | Costau a lwfans treuliau | 1022 | 150.00 |
| Sage & Co | Gwasanaethau cyflogres Ebrill – Mehefin 2020 | 1024 | 93.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£243.00** |

## 156. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN AWST 2020 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2020/21

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb a chan nodi:

i) Amcanestynwyd gwarged o £70,405 ar gyfer y flwyddyn
ii) Roedd £65,000 i'w drosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Prosiectau Mawr, a £5,000 i'r Gronfa Wrth Gefn Etholiadau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
iii) Efallai y bydd trosglwyddiadau pellach i'r Gronfa Wrth Gefn Prosiectau Mwar ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chydnabod yr adroddiad.*

## 157. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 158. TIR YN FFORDD CEFNDY

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ebost cyfrinachol gan Reolwr Datblygiad Masnachol Cyngor Sir Ddinbych, Mr Gerald Thomas, yn awgrymu bod Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngor Tref yn cyfarwyddo'r Prisiwr Dosbarth ar y cyd i asesu'r ystyriaeth briodol mewn perthynas â'r Protocol Trosglwyddo Tir.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**[Datganodd y Cynghorydd T. Thomas fuddiant rhagfarnus yn yr eitem uchod gan fod Gwasanaethau Cefn Gwlad yn ei bortffolio fel aelod o Gabinet Cyngor Sir Ddinbych ac ni chymerodd unrhhyw ran bellach yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater]**

## 159. CYNNIG I ADLEOLI SWYDDFA

Adroddodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg, y Cynghorydd P. Prendergast, a Chlerc y Dref yn gyfrinachol eu bod nhw a'r Dirprwy Glerc wedi cyfarfod gyda Rheolwr Datblygu Tai Cyngor Sir Ddinbych, Mr Mark Dixon, ac yn rhoi pum opsiwn gerbron yr aelodau i'w hystyried, i symud ymlaen gyda'r cynnig i adleoli.

Ar ôl trafodaeth, ***PENDERFYNODD*** *yr aelodau eu bod eisiau parhau gydag adleoli i 26 Ffordd Wellington, gan ofyn bod y mur rhwng y Siambr arfaethedig a'r ystafell lai yn cael ei ddymchwel, gan ddefnyddio RSJ os oedd angen, i letya'r wasg a'r cyhoedd yn fwy cyfforddus mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod Clerc y Dref yn galw Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor am 6pm ar ddydd Mercher 30ain Medi a gwahodd Mr Dixon i fynychu a rhoi ymateb i'r aelodau.*

## 160. EITEM YCHWANEGOL: TELEDU CYLCH CYFYNG

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o gais am grant a oedd yn cael ei wneud gan y grŵp partneriaeth TCC, yn gofyn am lythyrau o gefnogaeth gan y cynghorau tref perthnasol.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod Cyngor Tref Prestatyn wedi cytuno rhoi arian cyfatebol i'r cais o £1,000 a gofynnodd i'r aelodau os hoffent hwythau roddi arian cyfatebol o £1,000 i gefnogi'r cais ymhellach. Os byddai'n llwyddiannus, byddai'n sicrhau'r £93,000 sydd ei angen i gynnal a chadw ac adnewyddu camerâu pan fo angen.

***PENDFRFYNWYD*** *cymeradwyo'r arian cyfatebol o £1,000.*

## 161. EITEM YCHWANEGOL: COEDEN NADOLIG Y STRYD FAWR

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau bod coeden y llynedd yn 30 troedfedd o uchder ac yn anffodus roedd y gwynt wedi torri brig y goeden. Mewn ymgais i rwystro hyn rhag digwydd eto, awgrymodd goeden ychydig yn llai ar gyfer eleni.

***PENDEFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn archebu coeden 25 troedfedd.*

## 162. EITEM YCHWANEGOL: DIGWYDDIADAU COELCERTH A THÂN GWYLLT CYMUNEDOL YN Y DYFODOL

Adroddodd Clerc y Dref, er nad oedd wedi clywed gan Glwb Lles ac Adloniant Gorsaf Dân y Rhyl, roedd yn disgwyl na fyddai digwyddiad coelcerth a thân gwyllt eleni yn digwydd oherwydd rheolau Covid-19.

Atgoffodd yr aelodau o'r trefniant presennol gyda'r gwasanaeth, lle'r oedd y Cyngor Tref yn talu am y tân gwyllt a'r holl gostau yswiriant angenrheidiol, ac awgrymodd newid i'r trefniant o 2021 ymlaen, i noddi'r digwyddiad yn hytrach na bod yn bartner, fel yr ystyriwyd ac a gynigiwyd gan Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor.

***PENDEFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynnig i noddi'r digwyddiad yn y dyfodol.*

**163. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer: ………………….……..

Dyddiad: ……………………..